Cyfarwyddwr Cyffredinol Telathrebu yn Caniatáu Cod Cysylltiadau Electronig – 10 Hydref 2003

Crynodeb

S.1 Mae'r Datganiad hwn yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion Cyfarwyddwr Cyffredinol Telathrebu ('Y Cyfarwyddwr') i ganiatáu cod cysylltiadau electronig ('y Cod'). Nodwyd y cynigion hynny yn y ddogfen o'r enw *The granting of the Electronic Code by Oftel*, a gyhoeddwyd ar 2il Ebrill 2003 ac mae ar gael yn: http://www.oftel.gov.uk/publications/Infrastructure/2003/eleCode0303.htm ('y ddogfen ymgynghorol').

S.2 Ar 25ain Gorffennaf 2003, daeth fframwaith rheoliadol newydd ar gyfer rhwydweithiau a gwasanaethau cysylltiadau electronig i rym yn y Deyrnas Unedig a daeth â'r broses o drwyddedu systemau telathrebu i ben. Sylfaen y fframwaith rheoliadol newydd yw pedair Cyfarwyddeb Cysylltiadau'r Gymuned Ewropeiadd[1] ('y Gyfarwyddeb') a weithredwyd mewn cyfraith genedlaethol drwy gyfrwng Deddf Cysylltiadau 2003 ('y Ddeddf')[2].

S.3 O dan y gyfundrefn flaenorol, roedd pwerau'r cod yn gysylltiedig â thrwyddedau unigol ac roedd yn rhaid gwneud cais amdanynt a'u caniatáu ar yr un pryd â'r drwydded.

S.4 Fodd bynnag, o dan y gyfundrefn newydd, mae'n rhaid i bobl sy'n dymuno elwa ar y Cod ('Ceiswyr Cod') wneud cais amdano yn annibynnol ar unrhyw beth arall. Mae hyn yn cynnwys darparwyr rhwydweithiau cysylltiadau electronig a darparwyr systemau sianeli.

S.5 O dan y Ddeddf, mae'r pŵer i ganiatáu ac i weinyddu'r Cod wedi cael ei drosglwyddo i'r Cyfarwyddwr gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Fodd bynnag, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cadw'r pŵer i wneud rheoliadau sy'n cynnwys cyfyngiadau ac amodau y bydd caniatadau i'r cod yn amodol arnynt. Mae'r Adran Diwydiant a Masnach eisoes wedi ymgynghori ar fersiwn drafft Rheoliadau Cod Cysylltiadau Electronig (Codau a Rheoliadau)[3] 2003 ('y Rheoliadau'). Mae'r Rheoliadau eisoes wedi cael eu cwblhau ac fe'u cyflwyno gerbron y Senedd ar 3ydd Hydref 2003. Bydd y Rheoliadau, unwaith y dônt i rym, yn cymryd lle Atodlen 4 y trwyddedau unigol a

ganiatawyd o dan Ddeddf Telathrebu 1984. O dan y gyfundrefn newydd, bydd y pŵer i weithredu'r cyfyngiadau a'r amodau yn gorwedd gyda'r Cyfarwyddwr, ac unwaith y byddant wedi dechrau ymgymryd â'u cyfrifoldebau, y Swyddfa Gyfathrebu ('OFCOM').

S.6 Yn y ddogfen ymgynghorol, ceisiodd y Cyfarwyddwr farn partïon â diddordeb ar ei gynigion ar gyfer y weithdrefn a'r polisi cyffredinol ac ar gyfer caniatáu'r Cod. Derbyniodd y Cyfarwyddwr 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw. Nodir enwau'r ymatebwyr yn Atodlen D y Datganiad hwn.

S.7 Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw, mae'r Cyfarwyddwr yn nodi yn y Datganiad hwn y polisi y byddai'n disgwyl ei ddilyn ar ôl ystyried caniatáu'r Cod. Byddai disgwyl i'r Cyfarwyddwr roi rhesymau dros unrhyw achos o wyro oddi wrth y polisi hwn; fodd bynnag, ni all y Cyfarwyddwr gyfyngu ei ddisgresiwn mewn perthynas ag unrhyw gamau rheoliadol yn y dyfodol ac mae'n rhaid ymdrin â phob achos ar ei deilyngdod ei hun. Byddai unrhyw newid cyffredinol i'r polisi a nodir yn destun ymgynghoriad.

S.8 Mae polisi'r Cyfarwyddwr fel y nodir isod ac mae'n seiliedig ar y ddyletswydd i gadw'r ffactorau statudol canlynol mewn cof, yn ogystal â'i ddyletswyddau cyffredinol eraill o dan y Ddeddf –

- mantais y rhwydwaith neu'r system sianeli i'r cyhoedd;
- ymarferoldeb darparu'r rhwydwaith neu'r system sianeli heb y Cod;
- yr angen i annog pobl i rannu cyfarpar cysylltiadau electronig; a
- pa un a all y Ceisydd am y Cod ddiwallu rhwymedigaethau gan gynnwys y rhai sy'n codi o ganlyniad i'w ymddygiad mewn cysylltiad â'r materion y mae'r Cod yn ymdrin â hwy;[4]
- hefyd, yn unol ag adran 106(4)(b) y Ddeddf, mae'n rhaid i ddarparwyr system sianeli brofi eu bod yn sicrhau bod eu system sianeli ar gael neu eu bod yn bwriadu sicrhau ei bod ar gael i'w defnyddio gan ddarparwyr rhwydweithiau cysylltiadau electronig at ddibenion darparu eu rhwydweithiau.

S.9 Mae'r Cyfarwyddwr wedi penderfynu –

- Na chaiff ceisiadau am y cod gan bob darparwyr systemau sianeli eu trin yn wahanol i geisiadau eraill gan ddarparwyr rhwydweithiau cysylltiadau electronig.
- Mewn perthynas ag unrhyw faterion ychwanegol y dylai'r Cyfarwyddwr eu hystyried wrth ystyried gwneud cyfarwyddyd yn caniatáu'r Cod, bydd yn ystyried pob cais ar ei deilyngdod ei hun ac yn ystyried pob mater perthnasol, y gall rhai ohonynt fod yn unigryw i gais penodol.
- Heddiw, mae'r Cyfarwyddwr yn cyhoeddi hysbysiad o dan adran 107(2) y Ddeddf, sy'n nodi'r gofynion mewn cysylltiad â chynnwys cais am gyfeiriad wrth roi'r Cod ar waith a'r modd y mae cais o'r fath yn debygol o gael ei wneud. Mae'r hysbysiad ar gael yn Atodlen B y Datganiad hwn.
- Cred y Cyfarwyddwr y dylai'r angen am y Cod fod yn amlwg o gynllun busnes Ceisydd y Cod a'r amgylchiadau penodol a roddir mewn maes penodol. Fodd bynnag, gall y Cyfarwyddwr ddefnyddio ei bwerau statudol o dan adran 135 y Ddeddf i gael gwybodaeth bellach, os bydd angen.
- Dylid ystyried ceisiadau am y Cod yn fwy ffafriol mewn perthynas â gweithredwyr rhwydweithiau sy'n cynhyrchu tystiolaeth o'u gallu a'u parodrwydd i rannu seilwaith gyda gweithredwyr eraill, er na ddylid ystyried anallu neu amharodrwydd ynddynt eu hunain fel ffactor sy'n penderfynu.
- Byddai'r Cyfarwyddwr o leiaf yn disgwyl gweld llythyrau gan warantwyr posibl yn dangos parodrwydd i gefnogi Ceisydd y Cod wrth wneud y trefniadau angenrheidiol er mwyn sicrhau bod arian ar gael i gyflawni'r rhwymedigaethau cyn arfer pwerau'r cod. Yn achos cwmnïau sy'n gwneud cais am bwerau'r cod, byddai'r Cyfarwyddwr yn disgwyl gweld llythyrau wedi'u llofnodi gan y Cyfarwyddwyr yn tystio y bydd arian ar gael i gyflawni'r rhwymedigaethau cyn arfer eu pwerau o dan y cod.
- Ni ddylai fod unrhyw ragdybiaeth yn erbyn caniatáu'r Cod i bobl sy'n defnyddio rhannau o rwydwaith lle mai dim ond cysylltiadau seilwaith bach sydd eu hangen. Mae'r Cyfarwyddwr yn bwriadu asesu ceisiadau o'r fath yn ôl eu teilyngdod gan ystyried y ffactorau statudol a gwirio a ellir cyfiawnhau caniatáu'r Cod yn yr achosion hyn.
- Fel arfer, ni ddylid rhoi'r Cod i'r bobl hynny sy'n gweithio i rwydweithiau preifat yn unig neu'n bennaf.
- Bydd y Cyfarwyddwr yn hysbysebu ceisiadau am y cod yn *Gazette* Llundain, Caeredin a Belfast ac mewn papurau newydd cenedlaethol. Bydd y cyfarwyddiadau arfaethedig yn cael eu hysbysebu yn y Times a'r

Independent. Gellir defnyddio hysbysebu lleol gyda cheisiadau am y cod sy'n ddaearyddol benodol. Yn ogystal, caiff rhestrau cyswllt a hysbysiadau dros yr e-bost eu defnyddio. Caiff y polisi hysbysebu hwn ei adolygu'n barhaus.

- Bydd cofrestr statudol, a gaiff ei chynnal gan y Cyfarwyddwr ac a fydd yn rhestru'r bobl y caniatawyd iddynt gael y Cod yn ogystal â gweithredwyr y tybiwyd bod y Cod ganddynt ar 25ain Gorffennaf 2003, ar gael i'r cyhoedd. Heddiw, mae'r Cyfarwyddwr yn cyhoeddi hysbysiad o dan adran 108(4) y Ddeddf Cysylltiadau sy'n nodi a) yr amseroedd y mae'r gofrestr ar hyn o bryd ar gael i'r cyhoedd i'w chwilio a b) y ffïoedd y mae'n rhaid eu talu er mwyn archwilio'r gofrestr neu mewn cysylltiad â hynny. Mae'r hysbysiad ar gael yn Atodlen C y Datganiad hwn.
- Heddiw, mae'r Cyfarwyddwr yn cyhoeddi datganiad diwygiedig o egwyddorion codi tâl at ddibenion pennu ffïoedd yn unol ag adrannau 38 a 39 Deddf Cysylltiadau 2003. Mae'r egwyddorion pwysig hyn yn ymwneud â – (a) y bobl sy'n darparu Rhwydwaith Cysylltiadau Electronig neu Wasanaeth Cysylltiadau Electronig penodedig neu bobl sy'n sicrhau bod Cyfleuster Cysylltiedig penodedig ar gael, megis y penodiadau a gynhwysir mewn Hysbysiad Pennu a gyhoeddwyd gan y Cyfarwyddwr o dan adrannau 34 a 38 y Ddeddf ar 25ain o Orffennaf 2003[5] a (b) i bobl y mae'r Cod yn berthnasol iddynt. Mae'r egwyddorion codi tâl diwygiedig ar gael yn Atodlen A.
- Dim ond y bobl hynny sy'n meddu ar bwerau'r cod ar ddechrau'r flwyddyn codi tâl y codir tâl arnynt am weinyddu'r Cod am y flwyddyn honno. Caiff y tâl hwnnw ei gyfrifo drwy amcangyfrif costau'r Cyfarwyddwr am y flwyddyn ar gyfer gweinyddu'r Cod a'i rannu gyda nifer y bobl sydd â'r Cod ar ddechrau'r flwyddyn codi tâl, fel bod pawb yn talu'r un faint. Mae'r Cyfarwyddwr yn credu mai'r system syml hon yw'r un fwyaf priodol ond ar hyn o bryd mae'n aneglur pa adnoddau fydd eu hangen i weinyddu'r Cod. Rhoddir hysbysiadau unigol o'r tâl.
- Caiff tâl unffurf ar gyfer gweinyddu'r Cod ei filio ar y cyd â'r tâl gweinyddol cyffredinol ar gyfer pob darparwr rhwydwaith sydd â throsiant perthnasol ar y trothwy o £5 miliwn neu fwy. O ganlyniad, mewn cysylltiad â darparwyr rhwydweithiau sydd â throsiant perthnasol o £5 miliwn neu fwy sydd â phwerau'r cod, dim ond un hysbysiad yn nodi'r ddau dâl gwahanol (h.y. taliadau gweinyddol am swyddogaethau rhwydweithiau a gwasanaethau eraill a thâl er mwyn gweinyddu'r Cod) a gaiff ei anfon.

- Ar gyfer y flwyddyn codi tâl gyntaf, h.y. o 25ain Gorffennaf 2003 i 31ain Mawrth 2004, dim ond ar y bobl a oedd â phwerau'r cod ar 25ain Gorffennaf 2003 y codi'r tâl am weinyddu'r Cod. Yn seiliedig ar amcangyfrif o gostau'r Cyfarwyddwr am y flwyddyn codi tâl gyntaf, y tâl ar gyfer eleni fydd £3,000 a gaiff ei ostwng pro rata am 250 diwrnod, h.y. £2,055. Caiff yr hysbysiadau o'r taliadau am weinyddu'r Cod ar gyfer y flwyddyn codi tâl gyntaf eu rhoi yn unigol yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn.
- Yn ogystal, ar gyfer y flwyddyn codi tâl gyntaf yn unig, ar gyfer darparwyr rhwydwaith cysylltiadau electronig sydd â phwerau'r cod sy'n cyrraedd y trothwy £5 miliwn, ni fydd y Cyfarwyddwr yn rhoi hysbysiad am y ddau dâl gwahanol mewn un hysbysiad. Caiff hysbysiad ar wahân ei anfon i ddarparwyr sydd â throsiant perthnasol ar y trothwy o £5 miliwn neu fwy at ddibenion y tâl am weinyddu'r cod.
- Dylai unigolyn y rhoddwyd y Cod iddo mewn blwyddyn codi tâl benodol, gadw amcangyfrif y costau o ymdrin â'i gais am y cod mewn cof. Unwaith y caiff pwerau'r cod eu dyfarnu i unigolyn, yna bydd y Cyfarwyddwr yn hysbysu'r unigolyn hwnnw o'r un taliad y mae disgwyl iddo'i dalu mewn perthynas â'r costau hynny.
- Ar gyfer y flwyddyn codi tâl gyntaf, yn seiliedig ar amcangyfrif o gostau'r Cyfarwyddwr o ymdrin â cheisiadau llwyddiannus am y cod ac yn unol â'r egwyddorion codi tâl yn Atodlen A, y tâl y bydd pob Ceisydd Cod llwyddiannus yn gorfod ei dalu fydd £10,000.
- Dylai pawb sy'n meddu ar bwerau'r cod dalu costau ceisiadau aflwyddiannus. Caiff costau amcangyfrifedig o'r fath eu cynnwys yn y tâl a fydd yn cwmpasu'r costau amcangyfrifedig ar gyfer gweinyddu'r Cod.
- Dim ond pan fo angen penodol am gyfyngiadau y caiff y pŵer i gyfyngu ar gwmpas y Cod o dan adran 106(5) y Ddeddf ei arfer a chaiff ei asesu yn unigol.

[1] Cyfarwyddeb 2002/21/EC 7 Mawrth 2002 ar fframwaith reoliadol gyffredin ar gyfer rhwydweithiau a gwasanaethau cysylltiadau electronig ('Cyfarwyddeb Fframwaith')
Cyfarwyddeb 2002/19/EC 7 Mawrth ar fynediad i rwydweithiau cysylltiadau electronig a chyfleusterau cysylltiedig a'u cydgysylltu ('Cyfarwyddeb Mynediad')
Cyfarwyddeb 2002/22/EC 7 Mawrth 2002 ar wasanaeth cyffredinol a hawliau defnyddwyr mewn cysylltiad â rhwydweithiau a gwasanaethau cysylltiadau electronig ('Cyfarwyddeb Gwasanaeth Cyffredinol')
Cyfarwyddeb 2002/20/EC 7fed Mawrth 2002 ar awdurdodi rhwydweithiau a gwasanaethau cysylltiadau electronig ('Cyfarwyddeb Awdurdodi')
[2] Ar gael yn www.hmso.gov.uk

[3] Daeth cyfnod ymgynghori'r Adran Diwydiant a Masnach i ben ar 19 Mehefin 2003 ac mae'r ddogfen ar gael yn www.communicationsbill.gov.uk/pdf/Code restrictions and conditions 5.pdf
[4]Adran 107(4) y Ddeddf

[5] Hysbysiad o Benodiad o dan adran 34 a 38 Deddf Cysylltiadau 2003, sydd ar gael yn: http://www.oftel.gov.uk/ind info/licensing/mods/2003/250703.htm